WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru

# DRAFFT

Ebrill 2005

# Rhagair

Bydd creu Swyddfa Archwilio Cymru o dan arweiniad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi sicrwydd ynghylch stiwardio arian cyhoeddus yn briodol ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyfrif amdano. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell drwy ei rhaglenni craffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn archwilio'r gwerth am arian a sicrheir o ran gwariant cyhoeddus.

Mae'r Cod hwn wedi'i ddatblygu fel dogfen gynhwysfawr yn seiliedig ar egwyddorion. Mae'n diffinio'r fframwaith y bydd archwilwyr ac arolygwyr yn cydymffurfio ag ef wrth gyflawni eu gwaith.

Mae'r Cod yn nodi sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru, a'i chyflenwyr a'i chontractwyr archwilio, yn darparu cyfundrefn gwbl gydgysylltiedig wrth ymdrin yn briodol â'r materion cyfansoddiadol pwysig sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod y gyfundrefn yn cwmpasu swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol. Mae hefyd yn nodi sut y disgwyliwn i'r gyfundrefn ddatblygu o ran adolygiadau o systemau cyfan a ffyrdd integredig o weithio ar draws ffiniau – gan sicrhau bod gwaith archwilio ac arolygu mor gyfannol â'r problemau y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus eu hwynebu.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Ebrill 2005

# Rhagymadrodd

Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru (y Cod) sydd â'r cwmpas ehangaf o blith yr holl godau ymarfer archwilio, neu'r dogfennau cyfatebol, sydd wedi'u paratoi gan gyrff archwilio cyhoeddus, neu arolygiaethau gwasanaethau cyhoeddus, unrhyw le yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn adlewyrchu cwmpas Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a ddaeth â'r swyddogaethau y mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn eu cyflawni ar hyn o bryd a'r swyddogaethau archwilio ac arolygu a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio ynghyd. Creodd y Ddeddf Swyddfa Archwilio Cymru i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflwyno cyfundrefn gyda chylch gwaith ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus a chyda chyfle i gyflawni swyddogaethau archwilio ac arolygu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac effeithiol.

Mae swyddogaethau archwilio ac arolygu'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n cwmpasu archwiliadau o ddatganiadau ariannol a gwaith mewn perthynas â pherfformiad gwasanaethau, yn cyfrannu at ddarparu'r canlynol:

- sicrwydd mewn perthynas â datganiadau ariannol blynyddol a bod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio'n briodol at y dibenion a fwriadwyd;
- sicrwydd bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi gwerth da am arian wrth ddarparu eu gwasanaethau i'r cyhoedd;
- adborth i gyrff a archwiliwyd ac a arolygwyd i'w helpu i wella gwasanaethau; a
- gwybodaeth i'r rhai sy'n gyfrifol am graffu ar bolisi, i'r rhai sy'n llunio polisi eu hunain, ac i ddefnyddwyr gwasanaethau a threthdalwyr.

Er mwyn diwallu'r anghenion hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi datblygu'r Cod hwn i nodi sut y dylid defnyddio'r ystod o swyddogaethau yn y Ddeddf i sicrhau y cyflawnir gwaith archwilio ac arolygu yng Nghymru mewn ffordd wirioneddol gydgysylltiedig. Mae'r egwyddorion y mae'r Cod yn seiliedig arnynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r nod hwn.

Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswyddau a phwerau'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, ac archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu a gaiff eu his-gontractio i Swyddfa Archwilio Cymru (staff archwilio ac arolygu). Diben y Cod yw nodi sut y dylid cyflawni'r ystod eang o ddyletswyddau a phwerau, ac felly ddarparu fframwaith ar gyfer adolygu gwaith staff archwilio ac arolygu. Mae'r Cod wedi'i ddatblygu i sicrhau cymaint o synergedd â phosibl a mwy o integreiddio rhwng gweithgareddau ac arferion archwilio ac arolygu cyhoeddus ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus sydd o fewn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, tra'n bodloni gofynion y Ddeddf hefyd.

Mae'r Cod wedi'i strwythuro i gysylltu gweithgareddau archwilio ac arolygu cysylltiedig o dan benawdau cyffredinol, lle bynnag y gellir gwneud hyn, yn hytrach na bod yn gyfyngedig i arferion y sector a grëwyd gan hanes a deddfwriaeth flaenorol. Mae'r Cod hefyd yn darparu ar gyfer cydgysylltu'r broses o gynllunio a darparu gwaith archwilio ac arolygu ar draws gwasanaethau yn fwy effeithiol.

Nid yw'r Ddeddf wedi newid rhai gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng sectorau gwahanol. Y gwahaniaeth amlycaf o'r rhain yw bod archwiliadau a wneir o lywodraeth leol a chyrff lleol y GIG yn cynnwys archwilio'r datganiadau ariannol yn flynyddol a gwaith i ystyried trefniadau'r cyrff i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r gyfundrefn ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) a chyrff sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad lle y cyflawnir archwiliadau o ddatganiadau ariannol ar wahân i'r rhaglen flynyddol o astudiaethau gwerth am arian.

O ganlyniad, mae'r Cod, y mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r Ddeddf, yn nodi gofynion penodol ar gyfer y sector lle y bo'n briodol. Mae hefyd yn amlygu'r adrannau hynny sy'n gymwys yn statudol i archwilwyr penodedig llywodraeth leol, ac sydd wedi'u mabwysiadu o wirfodd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer archwiliadau o sectorau eraill. Ond wrth adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng sectorau, manteisiwyd ar y cyfle i gymhwyso egwyddorion cyffredin ac i wneud cyfeiriadau pendant tuag at yr angen i ystyried cyfleoedd i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig lle y bydd hyn yn sicrhau buddiannau, a fyddai'n cynnwys, er enghraifft, ystyried y posibilrwydd o gynnal archwiliadau gwerth am arian trawsbynciol o'r Cynulliad a/neu gyrff cysylltiedig ar y cyd â gwaith perthnasol gan archwilwyr ac arolygwyr mewn cyrff lleol.

Yn gryno, mae'r Cod yn cynnwys pum adran, fel y dangosir yn y tabl canlynol. Mae'r rhannau o'r Cod sy'n berthnasol i'r archwiliadau o gyrff llywodraeth leol gan archwilwyr penodedig, sef, gyda'i gilydd, y Cod Ymarfer Archwilio statudol a baratowyd o dan Adran 16 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 8A Deddf Llywodraeth Leol 1999, wedi'u hamlygu yn y testun â chefndir tywyll. Esbonnir statws, cwmpas a chymhwysiad y Cod ymhellach yn y Cyflwyniad.

# Strwythur y Cod

| Adran y Cod | Tud | Cynnyws | Elfennau statudol |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflwyniad | *6-7* | Mae'r cyflwyniad yn rhoi trosolwg o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol a'i gydberthynas â llywodraeth leol, ac mae'n nodi statws, cwmpas a chymhwysiad y Cod. | *Paragraffau 6,9-11,13* |
| 2.Egwyddorion cyffredinol sy'n rheoli gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru | *8-11* | Mae'r adran hon yn berthnasol i bob rhan o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith archwilwyr penodedig. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i weithgareddau archwilio ac arolygu ar draws pob sector. | Paragraffau *16-23* |
| 3. Archwilio datganiadau ariannol | *12-15* | Mae'r adran hon yn cwmpasu'r archwiliadau o ddatganiadau ariannol. Mae'n berthnasol i bob rhan o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith archwilwyr penodedig, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cynnal pob archwiliad o ddatganiadau ariannol yn unol â safonau archwilio, ond nodir rhai gofynion cyflwyno adroddiadau penodol ar gyfer y sector hefyd. | Paragraffau *24-29,31-38 46-47* |
| 4.Archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig | *16-21* | Mae'r adran hon yn cymhwyso'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn rhan gynharach y Cod i waith archwilio ac arolygu mewn perthynas â threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn lleol ac yng Nghymru gyfan (yn genedlaethol). Er bod gofynion penodol ar gyfer y sector sy'n deillio o'r Ddeddf, mae'r adran hon o'r Cod wedi'i datblygu i sicrhau y caiff gwaith ei gydgysylltu'n effeithiol ac i hwyluso cysylltiadau rhwng rhaglenni gwaith. | *Paragraffau 48-49,51-58 60-68, 71-73,79* |
| 5.Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig | *22* | Yn olaf, mae'r Cod yn nodi sut y dylid cyflawni rhai cyfrifoldebau eraill archwilwyr, er enghraifft mewn perthynas â dyletswyddau a phwerau penodol archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol. | *Paragraffau 84-87* |
| Atodlen 1 | *23* | Mae Atodlen 1 o'r Cod yn darparu ar gyfer archwilio cyrff bach. | *Paragraffau A1-A6* |
| Atodiad 1 | *24-27* | Rhestr termau. | |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r cyflwyniad hwn yn rhoi trosolwg o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol a'i gydberthynas â llywodraeth leol, ac mae'n nodi statws, cwmpas a chymhwysiad y Cod.

## Trosolwg o gyfundrefn archwilio ac arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru

1. Mae archwilio ac arolygu allanol annibynnol yn elfennau hanfodol yn y broses o fod yn atebol dros arian cyhoeddus. Gwnânt gyfraniadau pwysig i'r broses o stiwardio adnoddau cyhoeddus, llywodraethu corfforaethol da, a gwella gwasanaethau cyhoeddus. O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a deddfwriaeth arall, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru swyddogaethau archwilio ac arolygu ar draws ystod eang o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yn ogystal, yn sgîl y Ddeddf, crëwyd Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r staff a benodwyd i helpu'r Archwilydd Cyffredinol.

2. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad), y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, a'r GIG yng Nghymru, gan gynnwys cyrff lleol y GIG. Yn ogystal, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y per i gynnal archwiliadau o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ('gwerth am arian') y sefydliadau a'r cyrff hynny yn y sectorau addysg bellach ac addysg uwch.

3. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am benodi'r archwilwyr allanol i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae ganddo ddyletswyddau i gynnal astudiaethau cymharol cenedlaethol ac astudiaethau gwerth am arian eraill ar draws llywodraeth leol, ac mae ganddo bwerau arolygu i asesu i ba raddau y mae cyrff llywodraeth leol penodol yn cydymffurfio â'u dyletswydd i sicrhau gwelliannau parhaus yn eu swyddogaethau gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## Cydberthynas yr Archwilydd Cyffredinol â llywodraeth leol

4. Er i'r Ddeddf roi swyddogaethau i'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud ag archwilio ac arolygu llywodraeth leol, nid yw'n newid y berthynas gyfansoddiadol rhwng y Cynulliad a chyrff llywodraeth leol, sy'n bennaf atebol i'w hetholwyr eu hunain. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru ac archwilwyr penodedig barchu statws cyfansoddiadol sefydliadau llywodraeth leol wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol.

## Statws, cwmpas a chymhwysiad y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu hwn

5. Mae'r Cod cyfan yn gymwys i waith archwilio a gyflawnir ym mlwyddyn gyfrif 2005/06 a blynyddoedd cyfrif dilynol ac mae'n cwmpasu'r ystod lawn o gyfrifoldebau archwilio ac arolygu'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'n nodi:
   - sut y bydd staff yr Archwilydd Cyffredinol, cyflenwyr archwilio a chontractwyr yn cyflawni cyfrifoldebau archwilio ac arolygu'r Archwilydd Cyffredinol ei hun;
   - sut y cyflawnir cyfrifoldebau archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol.

6. Mae gan y rhannau o'r Cod hwn sy'n ymwneud ag archwiliadau o gyrff llywodraeth leol gan archwilwyr penodedig rym statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a daethant i rym ar [dyddiad] ar ôl cael eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r Cod.

7. Lle y bo'n berthnasol, mae'r darpariaethau hyn a phob un o ddarpariaethau anstatudol y Cod hwn wedi'u mabwysiadu o wirfodd gan yr Archwilydd Cyffredinol a daethant hwythau i rym hefyd ar [dyddiad] pan gyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y Cod.

8. Mae'r ystod o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol, a gwmpesir gan y Cod hwn yn eang. Mae'r rhestr termau yn nodi sut y defnyddir termau allweddol megis archwilio, arolygu, archwiliwr ac archwiliwr penodedig yn y Cod. Fel arfer defnyddir y term archwiliwr wrth gyfeirio at yr Archwilydd Cyffredinol neu staff a chyflenwyr archwilio Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau archwilio. Wrth gyfeirio'n fwy penodol at y rhai sy'n cyflawni swyddogaethau archwilio mewn perthynas â llywodraeth leol, defnyddir y term 'archwiliwr penodedig'. Y rheswm dros hyn yw bod archwilwyr llywodraeth leol, er y cânt eu penodi gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn cyflawni eu swyddogaethau archwilio yn eu rhinwedd eu hunain yn hytrach nag fel asiantau'r Archwilydd Cyffredinol. Gall archwilwyr penodedig fod yn gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru neu gwmnïau cyflenwi archwilio.

9. Mae'r Cod yn gymwys i archwilwyr ac arolygwyr sy'n cyflawni swyddogaethau y mae'r Cod yn berthnasol iddynt pa un a ydynt yn gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, neu ba un a ydynt yn cyflawni eu swyddogaethau fel cyflenwyr archwilio o dan gontract i Swyddfa Archwilio Cymru neu drwy gael eu penodi'n archwilwyr llywodraeth leol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

10. Fel gydag unrhyw god sy'n ceisio cwmpasu amrywiaeth eang o amgylchiadau, mae'n rhaid i'r dasg o gymhwyso'r Cod mewn unrhyw achos penodol ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol ac ar farn archwilwyr ac arolygwyr wedi'i seilio ar dystiolaeth briodol o'r hyn sy'n rhesymol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau hynny. Dylid darllen a chymhwyso pob darpariaeth yn y Cod gan ystyried yr amod angenrheidiol hwnnw.

## Diweddaru'r Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a dogfennau cysylltiedig

11. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i ddiweddaru'r Cod i adlewyrchu newidiadau yn amgylchedd gweithredol cyrff a archwilir ac a arolygir ac o ran safonau ac arferion proffesiynol perthnasol, a gall ddiwygio'r Cod lle y bo'n briodol yng ngoleuni profiad ymarferol.

12. Yn ogystal â'r Cod, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi dogfennau ar wahân sydd wedi'u hanelu'n benodol at gyrff a archwilir ac a arolygir a'r cyhoedd. Mae pob un o'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (http://www.wao.gov.uk) ac yn eu plith mae:

- Datganiadau o Gyfrifoldebau Archwilwyr ac Arolygwyr a Chyrff a Archwilir ac a Arolygir – mae'r rhain yn egluro cyfrifoldebau gwahanol yr archwiliwr a'r arolygydd a'r corff a archwilir ac a arolygir, a'r terfynau o ran yr hyn y gellir disgwyl i'r archwiliwr neu'r arolygydd ei wneud yn rhesymol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i baratoi a chynnal datganiadau penodol o gyfrifoldebau ar gyfer y sector a lle y mae'r rhain yn bodoli, maent yn gweithredu fel llythyr ymrwymiad archwilio neu lythyr dealltwriaeth. Ar gyfer cyrff a archwilir neu a arolygir nas cwmpesir gan ddatganiad o gyfrifoldeb, neu hyd nes eu bod wedi'u cwmpasu gan ddatganiad o gyfrifoldeb, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi llythyr ymrwymiad neu lythyr dealltwriaeth fel y bo'n briodol;
- Cyfrifon Cynghorau: Eich Hawliau – sy'n nodi hawliau'r cyhoedd i archwilio cyfrifon cyrff llywodraeth leol, a hawliau etholwyr lleol i ymholi ynghylch cyfrifon cyrff llywodraeth leol a'u gwrthwynebu, ac yn egluro pwerau'r archwiliwr.

13. O bryd i'w gilydd, lle y bo angen, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cyhoeddi canllawiau i archwilwyr penodedig. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud hyn o dan bwerau a nodir yn Adran 14 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i benodi archwilwyr ac i bennu eu hamodau penodi.

# 2. Engwyddorion cyffredinol sy'n rheoli gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r adran hon yn berthnasol i bob rhan o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith archwilwyr penodedig. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i weithgareddau archwilio ac arolygu ar draws pob sector.

14. Yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion penodol y Cod hwn, dylai pob archwiliwr (gan gynnwys archwilwyr penodedig) ac arolygwyr gynllunio a chyflawni eu gwaith a chyflwyno adroddiad arno yn unol â'r egwyddorion cyffredinol cydgysylltiedig canlynol:

**i. bod yn annibynnol, a chael eu hystyried yn annibynnol**

Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn cyflawni eu gwaith mewn ffordd annibynnol a gwrthrychol, yn unol â safonau moesegol priodol. Dylai eu barn, eu casgliadau a'u hargymhellion fod yn ddi-duedd, a dylid eu hystyried yn ddi-duedd.

**ii. cyflwyno adroddiad cyhoeddus, lle y bo'n briodol, am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus i wella atebolrwydd**

Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn cyflwyno adroddiad, lle y bo'n briodol, i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan ddisgrifio'n glir yr hyn y maent wedi'i ganfod. Mae gwaith archwilio ac arolygu yn elfen hanfodol o atebolrwydd. Mae'r broses o gyflwyno adroddiad cyhoeddus, os ceir ymateb cyhoeddus gan y corff dan sylw, yn helpu'r cyhoedd i benderfynu pa mor dda y darperir gwasanaethau.

**iii bod yn eang eu cwmpas, gan gwmpasu stiwardio arian cyhoeddus, ymddygiad busnes cyhoeddus, a pherfformiad ariannol ac anariannol wrth ddarparu gwasanaethau**

Mae atebolrwydd arbennig yn gysylltiedig â defnyddio arian cyhoeddus ac ymddygiad busnes cyhoeddus, ac felly caiff cwmpas gwaith archwilio ac arolygu cyhoeddus ei ehangu i gynnwys agweddau ar stiwardiaeth, llywodraethu a rheoli perfformiad.

**iv. canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaethau cyhoeddus o safbwynt amrywiaeth o randdeiliaid**

Mae archwilio ac arolygu yn ystyried pa mor dda ac effeithlon y mae gwasanaethau cyhoeddus yn diwallu anghenion a phrofiad y dinesydd wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r ffocws hwn yn golygu bod angen i archwilio ac arolygu fabwysiadu ymagwedd 'sefydliad cyfan' ac edrych ar draws ffiniau sefydliadol traddodiadol.

**v. gweithredu fel catalydd i helpu cyrff cyhoeddus i wella eu perfformiad**

Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn ceisio sicrhau bod y corff a gaiff ei adolygu yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau, herio cyrff a archwilir ac a arolygir i wella, a bod yn ddiamwys ynghylch methiant neu wasanaethau sy'n methu. Dylid cynllunio prosesau adolygu allanol i gynnal arweinwyr wrth sicrhau gwelliannau, gan gydnabod bod methiant i wella ynddo'i hun yn risg fusnes allweddol i gyrff cyhoeddus.

**vi. bod yn seiliedig ar asesiad risg**

Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn teilwra cwmpas, graddau, natur ac ymddygiad eu gwaith i amgylchiadau'r corff a gaiff ei adolygu, er mwyn sicrhau bod ymdrech archwilio ac arolygu wedi'i hanelu at y meysydd lle y ceir y risg fwyaf. Cyflawnir hyn drwy gynllunio yn seiliedig ar risg wrth archwilio ac arolygu.

vii. **bod yn seiliedig ar asesiad ystyriol o gostau a buddiannau, gan geisio sicrhau gwerth am arian gan gyrff a archwilir ac a arolygir ac o fewn y cyfundrefnau archwilio ac arolygu eu hunain**

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus fanteisio i'r eithaf ar adnoddau cyhoeddus. Dylai unrhyw asesiad o berfformiad ystyried defnydd cyrff cyhoeddus o adnoddau. Wrth wneud hyn, bydd archwilwyr ac arolygwyr hefyd yn cydnabod y gall cyrff a archwilir ac a arolygir ystyried bod argymhellion yr archwilwyr a'r arolygwyr ynddynt eu hunain yn cyfrannu at gynyddu costau. Felly, wrth gynnig argymhellion sydd â'r nod o wella perfformiad, bydd archwilwyr ac arolygwyr yn ystyried ymarferoldeb eu hargymhellion a'r goblygiadau posibl o ran adnoddau.

viii. **cydweithredu ag arolygwyr eraill ac asiantaethau adolygu allanol, gan sicrhau mwy o gydgysylltu ac ymagwedd fwy cyfannol tuag at asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus**

Mae archwilwyr, arolygwyr ac asiantaethau adolygu allanol eraill yn cydgysylltu eu gwaith i fabwysiadu ymagwedd 'sefydliad cyfan'. Mae'r pwyslais ar gydgysylltu prosesau adolygu allanol yn gwella dealltwriaeth archwilwyr ac arolygwyr o gyrff ac yn lleihau'r baich ar y rhai a gaiff eu hadolygu.

ix. **rhannu dysgu i greu dealltwriaeth gyffredin o berfformiad sy'n annog gwaith hunan-asesu trwyadl a gwell ddealltwriaeth o'u perfformiad gan gyrff a archwilir ac a arolygir**

Mae archwilio ac arolygu yn helpu arweinwyr i gyflwyno newidiadau drwy geisio nodi'r hyn sydd wrth wraidd y rhwystrau i wella, arferion da a ffyrdd o weithredu newid llwyddiannus, a thrwy rannu gwersi a ddysgwyd am yr hyn sy'n gweithio, gyda chyrff a archwilir ac a arolygir ac yn ehangach i lywio'r broses o lunio polisïau. Dylai crynodebau cenedlaethol o ganlyniadau archwilio ac arolygu fod yn fwy na disgrifiad o faint o gyrff a wnaeth beth. Dylid dysgu gwersi cenedlaethol a lleol am sut y gellir gwella gwasanaethau. Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn cysylltu ag eraill, ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ehangach, er mwyn nodi a rhannu arferion da wrth lywodraethu a sicrhau gwerth am arian.

x. **cynnal archwiliadau ac arolygiadau yn wrthrychol gyda phobl fedrus a phrofiadol yn unol â safonau uchel gan ddefnyddio tystiolaeth berthnasol, meini prawf tryloyw, a phrosesau adolygu agored**

Bydd archwilwyr ac arolygwyr yn cyflawni eu gwaith mewn ffordd broffesiynol, ac mor effeithlon ac effeithiol ac amserol â phosibl. Nid yw'r farn a lunnir yn seiliedig ar ragdybiaethau ond yn hytrach ar dystiolaeth o berfformiad yn erbyn meini prawf priodol gan gynnwys sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr.

15. Mae'r deg egwyddor gyffredinol hyn yn sail i'r Cod. Maent yn darparu'r fframwaith cysyniadol ar gyfer pennu cwmpas ac amcanion gwaith archwilio ac arolygu.

## Cyflawni egwyddorion cyffredinol archwilio ac arolygu

16. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gynllunio a chyflawni eu gwaith er mwyn cyflawni eu hamcanion ac er mwyn cydymffurfio â’r Cod. Nid yw archwilwyr nac arolygwyr yn disodli cyfrifoldebau cyrff a archwilir ac a arolygir eu hunain i roi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir busnes cyhoeddus yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, ac y diogelir arian cyhoeddus ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, ac y caiff ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol i gyflawni canlyniadau priodol o ran darparu gwasanaethau.

17. Wrth bennu eu hymagwedd dylai archwilwyr ac arolygwyr:

(a) Gynllunio a chyflawni’r archwiliad neu’r arolygiad, gan ystyried eu hasesiad o’r risgiau sy’n berthnasol i’w cyfrifoldebau, gan benderfynu at beth y dylent anelu eu gwaith a dyrannu adnoddau er mwyn sicrhau bod yr archwiliad neu’r arolygiad wedi’i deilwra i amgylchiadau’r corff a archwilir neu a arolygir. Dylid diweddaru’r asesiad o risgiau yn barhaus, a’i ddiwygio fel y bo’n briodol. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gael y cyfryw wybodaeth ac esboniadau ag sydd eu hangen yn eu barn hwy fel bod digon o dystiolaeth ganddynt i fodloni eu cyfrifoldebau o dan statud a’r Cod. Ni ddisgwylir iddynt adolygu pob agwedd ar drefniadau, systemau, prosesau neu gofnodion y corff a archwilir neu a arolygir.

(b) Wrth gyflawni archwiliad neu arolygiad, ystyried yr egwyddor bod angen ystyried pob rhan o’r archwiliad, a phob arolygiad, yng nghyd-destun y rhaglen gyfan o waith archwilio ac arolygu. Nid oes unrhyw ran yn sefyll ar ei phen ei hun ac mae gwaith mewn perthynas ag un elfen yn llywio gwaith mewn perthynas ag elfennau eraill.

(c) Ystyried y ffaith bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu ac yn darparu eu gwasanaethau drwy amrywiaeth o drefniadau, gan gynnwys partneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractau â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol neu’r sector preifat. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig rai pwerau i fynd ar drywydd arian cyhoeddus ac felly, dylent hefyd ystyried a oes angen iddynt fynd ar ei drywydd mewn trefniadau o’r fath ac ar draws trefniadau o’r fath.

(ch) Trafod gyda’r corff a archwilir neu a arolygir yr angen i gynhyrchu papurau gwaith a gwybodaeth arall sydd ei hangen ar gyfer archwiliad neu arolygiad yn amserol ac yn effeithiol, fel y gellir cynnal yr archwiliad neu’r arolygiad mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

(d) Sefydlu trefniadau cydgysylltu effeithiol gydag archwiliad mewnol. Dylai archwilwyr geisio dibynnu gymaint â phosibl ar waith archwiliad mewnol lle bynnag y bo’n bosibl.

(dd) Cydweithio ag archwilwyr ac arolygwyr allanol eraill, ac, yn achos archwilwyr penodedig, rhoi gwybodaeth i’r Archwilydd Cyffredinol (yn lleol ac yn genedlaethol), er mwyn sicrhau y gellir trosglwyddo gwybodaeth am arferion da yn effeithiol ar draws cyrff cyhoeddus ac o un corff a archwilir neu a arolygir i’r llall.

(e) Ystyried y system ehangach o archwilio, arolygu a rheoleiddio cyrff cyhoeddus, a phennu trefniadau cydgysylltu effeithiol gydag arolygiaethau statudol eraill er mwyn manteisio i’r eithaf ar adnoddau archwilio ac arolygu cyffredinol.

(f) Mabwysiadu ymagwedd adeiladol a chadarnhaol lle bynnag y bo’n bosibl, ac felly cefnogi ac annog newid

gwerthfawr, tra'n darparu gwaith craffu a sicrwydd annibynnol a chan gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol.

## Ystyriaethau cyffredinol o ran cynllunio archwiliadau ac arolygiadau a chyflwyno adroddiadau ar eu canlyniadau

18. Dylai cynllun wedi'i ddogfennu ddeillio o'r broses gynllunio sy'n nodi sut y mae archwilwyr ac arolygwyr yn bwriadu cyflawni eu cyfrifoldebau yng ngoleuni eu hasesiad risgiau. Dylai cynlluniau ddarparu ar gyfer trefniadau dilynol effeithiol er mwyn adolygu a yw'r corff a archwilir neu a arolygir wedi ystyried unrhyw faterion a nodwyd yn flaenorol yn effeithiol a, lle y bo'n briodol, a yw wedi rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith. Dylid parhau i adolygu cynlluniau a'u diweddaru fel y bo angen.

19. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gysylltu'n rheolaidd â chyrff a archwilir ac a arolygir a sicrhau y caiff canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg eu trafod ar y lefel sydd fwyaf priodol ym marn yr archwilwyr a'r arolygwyr o fewn y corff a archwilir neu a arolygir, a hynny yn amserol. Dylai archwilwyr ac arolygwyr ymgynghori â chyrff a archwilir ac a arolygir ynghylch cywirdeb ffeithiol adroddiadau drafft o waith archwilio ac arolygu.

20. Dylid cyhoeddi pob adroddiad sy'n deillio o archwiliadau ac arolygiadau yn brydlon ar yr adeg briodol yn y broses archwilio neu arolygu. Dylai archwilwyr ac arolygwyr gyflwyno'r cyfryw adroddiadau fel y gall y rhai a fydd yn eu derbyn ddeall:
- natur a chwmpas y gwaith a wneir;
- materion o bwys sy'n deillio o'r gwaith hwn;
- casgliadau clir a barn glir ar y materion hyn;
- natur unrhyw bryderon a'r rhesymau drostynt, gan nodi unrhyw gamau gweithredu y gall fod eu hangen i sicrhau gwelliannau.

21. Dylai adroddiadau archwilio ac arolygu:
- fod yn glir ac yn gryno;
- cael eu hategu gan y dystiolaeth a'r gwaith dadansoddi a gyflawnwyd gan yr archwiliwr neu'r arolygydd;
- bod yn berthnasol i anghenion y rhai a fydd yn derbyn yr adroddiadau;
- bod yn benodol wrth lunio casgliadau a chynnig argymhellion.

22. Dylai argymhellion archwilwyr neu arolygwyr, sy'n deillio o'u gwaith mewn perthynas â defnyddio adnoddau neu effeithiolrwydd gwasanaethau:
- fod yn benodol ynghylch pa gamau y dylai'r corff a archwilir neu a arolygir ystyried eu cymryd;
- bod yn ddefnyddiol, yn ymarferol ac yn seiliedig ar asesiad o'r manteision y bydd y corff a archwilir neu a arolygir yn eu gweld yn sgîl eu gweithredu;
- ystyried y goblygiadau posibl o ran adnoddau yn sgîl eu gweithredu.

23. Nid yw'n rhan o swyddogaethau archwilwyr nac arolygwyr i gwestiynu rhinweddau polisïau'r corff a archwilir neu a arolygir, ond gall archwilwyr ac arolygwyr archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch â pholisi ac ystyried effeithiau gweithredu polisi. Cyfrifoldeb y corff a archwilir neu a arolygir yw penderfynu pa un a ddylai weithredu unrhyw argymhellion a wneir gan archwilwyr neu arolygwyr, ac ym mha ffordd, ac, wrth gynnig unrhyw argymhellion, dylai archwilwyr ac arolygwyr osgoi creu argraff bod ganddynt unrhyw ran yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau'r corff a archwilir neu a arolygir.

# 3. Archwilio datganiadau ariannol

Mae'r adran hon yn cwmpasu'r archwiliadau o ddatganiadau ariannol. Mae'n berthnasol i bob rhan o gyfundrefn yr Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys gwaith archwilwyr penodedig, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol cynnal pob archwiliad o ddatganiadau ariannol yn unol â safonau archwilio, ond nodir rhai gofynion cyflwyno adroddiadau penodol ar gyfer y sector hefyd.

## Ymagwedd gyffredinol ar gyfer pob archwiliad, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau'r archwiliad o ddatganiadau ariannol

24. Mae'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys cyfrifon cyhoeddedig y corff a archwilir, yn ffordd hanfodol a ddefnyddir ganddo i roi cyfrif am ei stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ganddo ac am ei berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Cyfrifoldeb y corff a archwilir yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi datganiadau ariannol yn unol â gofynion perthnasol.

25. Mae'r corff a archwilir hefyd yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi datganiad a wneir gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn ymwneud â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol (Datganiad Llywodraethu) ar y cyd â'i ddatganiadau ariannol.

26. Mae'n ofynnol i archwilwyr archwilio'r datganiadau ariannol a chyhoeddi **adroddiad archwilio** ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar:

(a) pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff, neu yn ei chyflwyno'n deg, ac a ydynt wedi'u paratoi'n briodol yn unol â deddfwriaeth, cyfarwyddiadau neu reoliadau perthnasol a safonau cyfrifyddu perthnasol; a

(b) ar gyfer cyrff penodol, rheoleidd-dra'r trafodion.

27. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, dylai archwilwyr hefyd roi sicrwydd rhesymol yn eu hadroddiad archwilio bod y datganiadau ariannol:

(a) yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, pa un a gaiff hynny ei achosi drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall neu wall;

(b) yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion perthnasol eraill;

(c) yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon.

28. Dylai archwilwyr adolygu pa un a yw'r Datganiad Llywodraethu wedi'i gyflwyno yn unol â'r gofynion perthnasol gan nodi yn eu hadroddiad archwilio os nad yw'n bodloni'r gofynion hyn neu os yw'r Datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y mae'r archwiliwr yn ymwybodol ohoni. Wrth wneud hyn dylai archwilwyr ystyried gwybodaeth y corff a archwilir a feithrinwyd drwy waith archwilio mewn perthynas â threfniadau'r corff ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

29. Wrth gyflawni eu harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cod, dylai archwilwyr gydymffurfio â'r safonau archwilio sydd mewn grym ar hyn o bryd, ac y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd, a dylent ystyried unrhyw gyngor a chanllawiau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Dylai archwilwyr hefyd gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio sydd ar waith ar hyn o bryd, ac y gellir eu diwygio o bryd i'w gilydd.

## Gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio a gyhoeddir gan archwilwyr penodedig ar ddatganiadau ariannol cyrff llywodraeth leol

30. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol. Caiff y gofynion hyn eu cymhwyso hefyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, fel yr archwiliwr allanol statudol, i ddatganiadau ariannol cyrff lleol y GIG. Disgrifir gofynion cyflwyno adroddiadau archwilio pellach sy'n berthnasol i gyrff lleol y GIG, ac a rennir â chyfrifon y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, ym mharagraffau 39 i 45 isod.

31. Mae adroddiad archwilio archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol yn cwmpasu holl gyfrifoldebau'r archwiliwr o dan y Ddeddf. Felly, mae'n cynnwys **barn** yr archwiliwr ar y datganiadau ariannol a, chan ystyried y meini prawf perthnasol, **casgliad** yr archwiliwr o ran a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

32. Wrth ddod i gasgliad ar drefniadau'r corff a archwilir mewn perthynas â'i ddefnydd o adnoddau, bydd yr archwiliwr yn cymhwyso meini prawf y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu pennu. Nodir y ffynonellau sicrwydd arferol y dylai'r archwiliwr seilio'r casgliad arnynt yn Adran 4 y Cod hwn.

33. Dylai'r adroddiad archwilio hefyd gynnwys, drwy eithriad, unrhyw adroddiad gan yr archwiliwr penodedig ar:
    - unrhyw faterion sy'n atal yr archwiliwr rhag bod yn fodlon bod y corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
    - unrhyw faterion sy'n atal yr archwiliwr rhag dod i'r casgliad bod y Cynllun Gwella wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion perthnasol (ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodol);
    - unrhyw argymhellion sy'n ymwneud ag archwilio'r Cynllun Gwella (ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodol);
    - unrhyw argymhellion o ran pa un a ddylai'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r corff a pha un a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddyd (ar gyfer cyrff llywodraeth leol penodol);
    - unrhyw argymhellion i'w hystyried gan gyrff a archwilir o dan Adran 25 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (cyrff llywodraeth leol penodol);
    - unrhyw faterion a nodwyd er budd y cyhoedd wrth gynnal archwiliad neu ar ôl ei gwblhau;
    - arfer unrhyw bwerau arbennig eraill sydd gan yr archwiliwr.

34. Lle y nodwyd unrhyw ganfyddiadau ar y meysydd uchod mewn adroddiad ar wahân a baratowyd gan yr archwiliwr, gall yr adroddiad archwilio gynnwys cyfeiriad priodol at y canfyddiadau hyn.

## Cyfrifoldebau archwilwyr mewn perthynas â'r Ddeddf

35. Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig, o dan Adran 23 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ardystio eu bod wedi cwblhau pob archwiliad o lywodraeth leol. Effaith cyhoeddi'r dystysgrif gwblhau yw cau'r archwiliad ac mae'n nodi'r adeg pan fydd cyfrifoldebau'r archwiliwr mewn perthynas â'r archwiliad o'r cyfnod a gwmpesir gan y dystysgrif wedi'u cyflawni.

36. Bydd adegau pan fydd gwaith archwilio mewn perthynas â'r datganiadau ariannol wedi'i gwblhau i raddau helaeth ond ni ellir cyhoeddi tystysgrif i ddangos bod yr archwiliad wedi'i gwblhau, er enghraifft am fod materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy sy'n deillio o gamau neu gamau posibl o dan y Ddeddf. Dylai archwilwyr penodedig ystyried cyhoeddi eu hadroddiad archwilio, gan gynnwys y farn a'r casgliad o ran pa un a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, cyn gynted ag y bydd y gwaith archwilio angenrheidiol wedi'i gyflawni, yn amodol ar unrhyw eithriad neu unrhyw amod y bydd angen i'r archwiliwr ei ystyried o bosibl.

37. Yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad archwilio, dylai'r archwiliwr sicrhau bod materion allweddol perthnasol a chanfyddiadau sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ddogfen arall a gynhyrchir gan yr archwiliad fel y bo'n briodol. Ymhlith y dogfennau hyn mae :

- adroddiadau ar lafar a/neu ysgrifenedig neu femoranda i swyddogion;
- gohebiaeth â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- llythyr archwilio blynyddol; ac
- adroddiadau er budd y cyhoedd, lle y bo'n briodol.

Disgrifir ffurf a chynnwys y mathau eraill hyn o ddogfennau yn Adran 4 y Cod hwn.

38. Efallai y bydd yn ofynnol hefyd i archwilwyr roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol, ar gais.

## Gofynion ychwanegol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol

39. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwiliwr allanol statudol o'r datganiadau ariannol a baratoir gan gyrff lleol y GIG, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (gan gynnwys cyfrifon cryno GIG Cymru), ac amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad neu sy'n gysylltiedig ag ef. Yn ogystal, mae rhai cyfrifon y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwiliwr allanol arnynt drwy gytundeb, yn hytrach na thrwy statud. Yn ogystal â'u datganiadau statudol blynyddol llawn, efallai y bydd rhai cyrff a archwilir yn dewis cynhyrchu datganiadau ariannol cryno i'w cyhoeddi gyda'u hadroddiad blynyddol, a fydd yn cael eu harchwilio hefyd.

40. Dylai archwilwyr sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ystyried cyfrifoldebau archwilwyr a grynhoir yn llythyr dealltwriaeth yr Archwilydd Cyffredinol (ar gyfer archwiliadau statudol) neu lythyr ymrwymiad yr Archwilydd Cyffredinol (ar gyfer archwiliadau drwy gytundeb) gyda phob corff a archwilir, sy'n parhau i fod mewn grym hyd nes y bydd datganiad perthnasol o gyfrifoldebau yn ei ddisodli.

41. Ar gyfer archwiliadau statudol, fel arfer mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio'r cyfrifon a'r copïau lleyg, ynghyd â'r adroddiad arnynt, gerbron y Cynulliad. Bydd y dystysgrif, a gyfeirir at Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ymgorffori'r farn archwilio ar y ffurf a bennir.

42. Os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi barn ddiamod, ac nad oes ganddo unrhyw faterion sy'n haeddu cael eu nodi'n benodol mewn adroddiad, bydd

yn cyflawni ei rwymedigaethau drwy ychwanegu'r geiriau 'Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn' at y dystysgrif (gelwir hyn yn 'adroddiad dim'). Os rhoddir barn amodol, neu os bydd yr Archwilydd Cyffredinol fel arall am gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater, bydd y dystysgrif yn cyfeirio'r darllenydd at adroddiad sylweddol a gyhoeddir gyda'r cyfrifon.

43. Dylai archwilwyr ystyried a fyddai'n briodol paratoi adroddiad sylweddol o'r fath ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, a dylent bob amser wneud hynny lle y rhydd yr Archwilydd Cyffredinol farn amodol. Dylid ystyried paratoi adroddiad sylweddol hefyd mewn perthynas ag unrhyw fater y mae'r Archwilydd Cyffredinol am ei ddwyn i sylw defnyddwyr y cyfrifon heb amodi'r farn archwilio. Ymhlith yr enghreifftiau o faterion o'r fath mae pryderon o ran priodoldeb neu gynnal busnes cyhoeddus yn briodol.

44. Lle y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad sylweddol ar gyfrifon i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad y per, os dymuna ei arfer, i gasglu tystiolaeth gan y Swyddog Cyfrifyddu neu'r Swyddog Atebol perthnasol neu swyddogion priodol eraill.

45. Ar ddiwedd pob archwiliad, dylai archwilwyr sy'n cynnal yr archwiliad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol sicrhau y caiff y materion a'r canfyddiadau allweddol perthnasol sy'n deillio o'r archwiliad eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Dylai archwilwyr Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd, fel y bo'r Archwilydd Cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol, ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad.

## Archwilio cyrff bach

46. Bydd amgylchiadau lle y gall agweddau ar y Cod a all fod yn berthnasol fod yn amhriodol i'r gwaith o archwilio rhai cyrff, er enghraifft oherwydd y symiau cymharol fach o arian cyhoeddus a reolir gan y cyrff dan sylw. Wrth archwilio cyrff o'r fath, dylai archwilwyr gymhwyso'r Cod i'r graddau y mae'n briodol, yn eu barn hwy, gan ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Wrth archwilio cyrff sydd ag incwm blynyddol neu wariant blynyddol sy'n is na therfyn ariannol a bennir, ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â chyrff perthnasol o bryd i'w gilydd, dylai archwilwyr gymhwyso Atodlen 1 y Cod hwn i'w harchwiliadau os bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn dweud wrthynt am wneud hynny.

47. Gall amgylchiadau godi lle y gallai'r Archwilydd Cyffredinol bennu y bydd gofynion llawn y Cod yn gymwys i gyrff a fyddai'n cael eu hystyried yn gyrff bach fel arall.

# 4. Archwilio ac asesu perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan ACC ac archwilwyr penodedig

Mae'r adran hon yn cymhwyso'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn rhan gynharach y Cod i waith archwilio ac arolygu mewn perthynas â threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, yn lleol ac yng Nghymru gyfan (yn genedlaethol). Er bod gofynion penodol ar gyfer y sector sy'n deillio o'r Ddeddf, mae'r adran hon o'r Cod wedi'i datblygu i sicrhau y caiff gwaith ei gydgysylltu'n effeithiol ac i hwyluso cysylltiadau rhwng rhaglenni gwaith.

## Cyfrifoldebau cyrff a archwilir ac a arolygir

48. Cyfrifoldeb y corff a archwilir ac a arolygir yw rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau ac er mwyn sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol, ac adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd. Mae trefniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol corfforaethol o'r fath yn rhan allweddol o'r system rheolaeth fewnol ac yn cynnwys trefniadau'r corff o ran:

- pennu amcanion strategol a gweithredol;
- llunio polisïau a gwneud penderfyniadau;
- sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr, ac o ran ymgysylltu â'r gymuned ehangach;
- sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig;
- nodi, gwerthuso a rheoli risgiau a chyfleoedd gweithredol ac ariannol, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o gymryd rhan mewn partneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractio;
- sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd gyffredinol gwerth gorau, lle y bo'n gymwys;
- rheoli ei adnoddau ariannol a'i adnoddau eraill, gan gynnwys trefniadau i ddiogelu ei sefyllfa ariannol;
- monitro ac adolygu perfformiad, gan gynnwys trefniadau i sicrhau ansawdd data;
- sicrhau y caiff ei faterion eu rheoli yn unol â safonau ymddygiad priodol ac i atal a chanfod twyll a llygredd.

49. Mae'r corff a archwilir ac a arolygir yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn fel rhan o'i Ddatganiad Llywodraethu blynyddol.

## Cyfrifoldebau archwilwyr penodedig mewn perthynas â threfniadau cyrff llywodraeth leol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau

50. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio cyfrifoldebau archwilwyr penodedig mewn perthynas â threfniadau cyrff llywodraeth leol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Bydd yr Archwilydd Cenedlaethol, fel yr archwiliwr allanol statudol, hefyd yn cymhwyso'r cyfrifoldebau hyn i archwiliadau o gyrff lleol y GIG.

51. Mae gan archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol gyfrifoldeb statudol i fodloni eu hunain bod cyrff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, dylai archwilwyr adolygu tystiolaeth sy'n berthnasol i drefniadau rheoli perfformiad a rheoli ariannol y corff a archwilir, a'i harchwilio lle y bo'n briodol, a chyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn. Mae gan archwilwyr penodedig awdurdodau lleol penodol gyfrifoldeb hefyd i ystyried i ba raddau y mae'r corff a archwilir yn cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â pharatoi a chyhoeddi ei Gynllun Gwella ac i gyflwyno adroddiad ar hynny.

52. Ymhlith ffynonellau sicrwydd archwilwyr wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau cyrff a archwilir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau mae:

- tystiolaeth i ddangos ffordd y corff a archwilir o weithredu ei system rheolaeth fewnol gyfan (amlinellir elfennau o hyn ym mharagraff 48, uchod) fel y nodir yn ei Ddatganiad Llywodraethu;
- canlyniadau gwaith arolygiaethau statudol lle y maent yn berthnasol i gyfrifoldebau archwilwyr;
- gwaith a bennir gan yr Archwilydd Cyffredinol, neu waith arall a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol, i ategu'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;
- unrhyw waith arall sydd ei angen yn eu barn hwy er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau.

53. Dylai archwilwyr ddibynnu ar ganlyniadau gwaith arolygiaethau statudol a nodir mewn perthynas â pherfformiad corfforaethol neu berfformiad gwasanaeth heb gynnal gweithdrefnau i asesu ansawdd y gwaith a wneir a heb ail-wneud unrhyw waith, ac eithrio lle y mae amgylchiadau neu wybodaeth benodol yn eu harwain i ddod i'r casgliad na fyddai'n rhesymol dibynnu ar ganlyniadau o'r fath.

*Ystyriaethau mewn perthynas â chynllunio gwaith archwilio ac arolygu lleol o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd*

54. Wrth gynllunio gwaith archwilio ac arolygu gwerth am arian lleol, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried ac asesu'r risgiau busnes sylweddol perthnasol sy'n gymwys i'r corff a archwilir neu a arolygir ac sy'n berthnasol i gyfrifoldebau archwilio neu arolygu. Risgiau o'r fath yw'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol hynny i gyflawni swyddogaethau ac amcanion statudol y corff a archwilir. Mae asesu'r hyn sy'n sylweddol yn fater o farn broffesiynol ac mae'n cynnwys ystyried agweddau meintiol ac ansoddol yr eitem neu'r pwnc dan sylw.

55. Dylai asesiad archwilwyr ac arolygwyr o risg, y dylent ei drafod gyda'r corff a archwilir neu a arolygir, adlewyrchu'r ystyriaeth y maent wedi'i rhoi i berthnasedd ac arwyddocâd y risgiau busnes posibl a wynebir gan bob corff o fath arbennig, a'r risgiau eraill sy'n gymwys i gyrff unigol yn benodol. Yn ogystal, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried asesiad y corff ei hun o'r risgiau y mae'n eu hwynebu a'r trefniadau a roddodd y corff ar waith i reoli ei risgiau ac ymdrin â hwy. Wrth asesu risgiau mewn perthynas â darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried:

- tystiolaeth a gasglwyd o waith archwilio ac arolygu blaenorol, gan gynnwys ymateb y corff i adroddiadau archwilio ac arolygu blaenorol;
- hanes y corff a archwilir neu a arolygir i wella ei berfformiad gan gydnabod bod methiant i wella ynddo'i hun yn risg fusnes allweddol;
- gwaith arolygiaethau statudol eraill ac asiantaethau adolygu allanol.

56. Ar sail eu hasesiad o risg dylai archwilwyr ac arolygwyr gynllunio eu gwaith a phenderfynu a ddylai:

- amlygu'r risg i'r corff a archwilir neu a arolygir;
- gohirio unrhyw waith pellach yng ngoleuni gwaith presennol neu waith a gynlluniwyd gan y corff neu asiantaethau adolygu eraill; neu
- gwneud gwaith mewn perthynas â risgiau penodol er mwyn llunio barn ar ddigonolrwydd agweddau ar drefniadau'r corff ar gyfer stiwardiaeth a llywodraethu, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheolaeth ariannol.

57. Wrth ystyried a ddylent wneud gwaith mewn perthynas â risg benodol, dylai archwilwyr ac arolygwyr ystyried y posibilrwydd iddynt gyfrannu at welliannau wrth gyflawni swyddogaethau'r corff a archwilir neu a arolygir. Gall gwaith archwilio neu arolygu gwerth am arian gynnwys:

- cytuno ar y gwaith o gwmpasu a chynllunio eu hadolygiadau gydag awdurdodau;
- arolygiadau llawn wedi'u trefnu gydag adroddiad y gellir ei gyhoeddi;
- cymhwyso dulliau archwilio neu arolygu perfformiad penodol eraill.

58. Gall gwaith o'r fath hefyd gynnwys cydweithio ag eraill er mwyn asesu pa mor dda yr ymdrinnir â risgiau sy'n deillio o gyfranogiad y corff a archwilir neu a arolygir mewn partneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractio.

## Archwilwyr penodedig yn cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â pherfformiad cyrff llywodraeth leol

59. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio'r ystyriaethau i'w cymhwyso gan archwilwyr penodedig wrth gyflwyno adroddiadau ar berfformiad cyrff llywodraeth leol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol, fel yr archwiliwr allanol statudol, hefyd yn cymhwyso'r ystyriaethau hyn i archwiliadau o gyrff lleol y GIG.

60. Caiff canlyniadau gwaith archwilio ac arolygu lleol eu cyflwyno i gyrff lleol unigol a archwilir ac a arolygir mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys:

(a) adroddiadau ar lafar a/neu ysgrifenedig neu femoranda i swyddogion a, lle y bo'n briodol, aelodau, ar ganlyniadau agweddau penodol ar waith archwilwyr ac arolygwyr, neu faterion sy'n deillio o hynny;

(b) adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu sy'n crynhoi gwaith yr archwiliwr;

(c) llythyr archwilio blynyddol neu, i'r cyrff hynny lle y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiadau, llythyr archwilio ac arolygu blynyddol i'r corff a archwilir ac a arolygir;

(ch) adroddiadau arolygu ac asesiadau perfformiad;

(d) adroddiadau er budd y cyhoedd.

61. Yn ogystal, yn eu hadroddiad archwilio blynyddol ar y datganiadau ariannol, mae archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol yn cynnwys casgliad o ran pa un a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau – gweler Adran 3, paragraff 31 o'r Cod hwn. Bydd archwilwyr hefyd yn cyflwyno adroddiad ar faterion eraill drwy eithriad, er enghraifft mewn perthynas â'r Cynllun Gwella.

### Adroddiadau neu femoranda ar agweddau unigol ar waith archwilio neu arolygu

62. Gall archwilwyr neu arolygwyr gyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau elfennau neu rannau penodol o'r archwiliadau neu'r arolygiadau, a materion sy'n deillio ohonynt, mewn adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth briodol. Dylid paratoi a chyhoeddi neu ddosbarthu adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau o'r fath cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith.

### Adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

63. Dylai adroddiadau archwilwyr i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gwmpasu'r ystod lawn o gyfrifoldebau archwilwyr o dan statud a'r Cod. Fodd bynnag, nid oes angen i'r adroddiadau hyn ddyblygu materion pwysig a gyflëwyd o'r blaen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, er enghraifft drwy adroddiadau, memoranda neu gyflwyniadau ar waith archwilio penodol yn ystod y flwyddyn. Dylai archwilwyr fod yn fodlon y caiff eu hadroddiadau eu hystyried ar y lefel fwyaf priodol, yn eu barn hwy, o fewn y corff a

archwilir neu a arolygir.

### Llythyrau archwilio blynyddol, neu i'r cyrff hynny lle y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiadau, llythyrau archwilio ac arolygu blynyddol

64. Diben paratoi a chyhoeddi llythyrau archwilio blynyddol yw cyfleu materion allweddol sy'n deillio o waith yr archwilwyr, y dylid eu dwyn i sylw'r corff a archwilir, yn eu barn hwy, i'r corff a archwilir a rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys y cyhoedd.

65. Er nad yw fformat y llythyr wedi'i bennu, dylid ei baratoi yn unol â chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Archwilydd Cyffredinol a dylai amlygu'r materion allweddol sy'n deillio o'r adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a chasgliadau'r archwilwyr ar agweddau perthnasol ar yr archwiliad, a dylai gwmpasu'r holl waith a wnaed ers cyhoeddi'r llythyr blynyddol blaenorol. Dylid ei baratoi mewn iaith sy'n glir, yn gryno ac yn hygyrch i gynulleidfa eang.

66. Dylid cyfeirio'r llythyr archwilio blynyddol at bob aelod o'r corff a archwilir a dylai'r archwiliwr sicrhau y caiff pob aelod gopi ohono. Lle nad yw'r corff a archwilir yn trefnu i ddosbarthu'r llythyr i bob aelod, dylai'r archwiliwr wneud y trefniadau angenrheidiol. Er nad yw rhai cyrff a archwilir yn destun gofyniad statudol i gyhoeddi eu llythyrau archwilio blynyddol, dylai archwilwyr annog y cyrff hyn i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y llythyrau ar gael.

67. Dylai'r archwiliwr roi'r llythyr archwilio blynyddol i'r corff a archwilir cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r archwiliad ac erbyn dyddiad i'w bennu gan yr Archwilydd Cyffredinol, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddynt, fan bellaf, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

68. I'r cyrff hynny lle y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiadau, dylai archwilwyr penodedig roi gwybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol ar y materion allweddol sy'n deillio o'u gwaith archwilio, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i baratoi llythyr archwilio ac arolygu blynyddol a'i anfon i'r corff a archwilir. Bydd y llythyr yn cwmpasu'r gwaith a wnaed gan archwilwyr ers cyhoeddi'r llythyr blynyddol blaenorol. Bydd yn cynnwys crynodeb o waith archwilio ac arolygu, cynnydd yn erbyn cynlluniau gwella a bydd yn defnyddio adroddiadau cyhoeddedig arolygiaethau eraill i roi crynodeb blynyddol i'r corff a archwilir ac a arolygir.

### Adroddiadau arolygu ac asesiadau o berfformiad cyrff llywodraeth leol

69. Caiff canlyniadau gwaith arolygu eu cyflwyno i gyrff unigol a arolygir. Gellir gwneud hyn mewn amrywiaeth o fformatau gan gynnwys, fel y bo'n briodol:

- cyflwyniadau ar lafar neu weithdai;
- adroddiadau ysgrifenedig i'r corff a arolygir;
- adroddiadau ysgrifenedig y gellir eu sgorio a'u cyhoeddi.

70. Yn ogystal, ar ôl arolygiadau a gynhelir ym mhob awdurdod lleol neu sawl awdurdod lleol, gellir llunio adroddiad cenedlaethol sy'n crynhoi'r canfyddiadau a'r canlyniadau, a gellir cyhoeddi hyn.

### Adroddiadau er budd y cyhoedd

71. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol ystyried pa un a ddylent gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad, er budd y cyhoedd, fel y gall y corff dan sylw ei ystyried neu fel y gellir dwyn sylw'r cyhoedd ato.

72. Dylai archwilwyr ystyried a yw budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fater o'r fath fod yn destun adroddiad ar unwaith yn hytrach nag adroddiad ar ddiwedd yr archwiliad. Dylid gwneud adroddiad ar unwaith er budd y cyhoedd lle y mae'r archwilwyr o'r farn bod mater yn ddigon pwysig i'w ddwyn i sylw'r corff a archwilir neu'r cyhoedd ar fyrder.

73. Wrth baratoi a chyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd, dylai archwilwyr deilwra eu hymagwedd yn unol â natur frys ac arwyddocâd eu pryderon.

74. Dylai archwilwyr pob corff lle mai'r Archwilydd Cyffredinol yw'r archwiliwr allanol statudol ystyried a ddylent gyflwyno adroddiadau er budd y cyhoedd. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw adroddiadau er budd y cyhoedd a wneir mewn perthynas â chyrff llywodraeth nad ydynt yn gyrff llywodraeth leol gerbron y Cynulliad ac felly maent o fewn cylch gwaith ei Bwyllgor Archwilio.

## Ystyriaethau mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad o ran cyrff lleol y GIG

75. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol y pwerau i gyflwyno adroddiadau i Aelodau'r Cynulliad ar gyrff unigol y GIG a bydd yn ystyried gwneud hynny os yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod angen cyflwyno adroddiad ar fater yn ymwneud â stiwardiaeth, llywodraethu neu berfformiad corff er budd atebolrwydd cyhoeddus. Caiff unrhyw adroddiadau o'r fath eu cyhoeddi a gall Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad gymryd tystiolaeth arnynt gan y swyddog atebol perthnasol. Felly, dylai archwilwyr sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ystyried a ddylid paratoi adroddiad i'w gyhoeddi os daw unrhyw faterion pwysig o ran rheoleidd-dra, priodoldeb neu werth am arian, neu faterion eraill o ran cynnal busnes cyhoeddus yn briodol, i'w sylw yn ystod eu gwaith ar gyrff o'r fath.

76. Lle y mae rhaglen gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys astudiaethau ar GIG Cymru, gall y rhain ymgorffori gwaith a wneir ar archwiliadau o gyrff unigol y GIG, neu wybodaeth a gesglir o archwiliadau o'r fath. Wrth gynnal gwaith i ategu astudiaethau o'r fath, dylai archwilwyr drafod cwmpas a chanfyddiadau'r gwaith gyda'r cyrff dan sylw.

## Astudiaethau cenedlaethol o wasanaethau llywodraeth leol

77. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gynnal astudiaethau 'gwerth am arian' ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canlyniadau astudiaethau a gynhelir a'r argymhellion a gynigir, neu'n sicrhau eu bod ar gael fel arall. Cyfeirir at y gwaith a wneir o dan y pwerau hyn fel astudiaethau cenedlaethol, er y gall astudiaethau unigol gwmpasu gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru gyfan neu ddetholiad o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru. Mae astudiaethau yn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i wneud cymariaethau ar draws amrywiaeth o gyrff llywodraeth leol, ac, ochr yn ochr â phwerau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes iechyd a sectorau eraill, maent yn hwyluso'r dasg o gynnal astudiaethau cymunedol a chyflwyno adroddiadau arnynt.

78. Wrth bennu'r rhaglen o astudiaethau i'w chynnal ar draws cyrff llywodraeth leol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried y cyfle i gynnal astudiaethau ochr yn ochr â gwaith yr Archwilydd Cyffredinol mewn sectorau eraill lle y byddai manteision yn deillio o wneud gwaith cydgysylltiedig.

79. Gall yr Archwilydd Cyffredinol nodi risgiau o ran y defnydd o adnoddau a wynebir gan bob corff llywodraeth leol o fath penodol neu mewn ardal. Yng ngoleuni'r risgiau hyn, gall yr Archwilydd Cyffredinol lunio rhaglenni arolygu neu astudiaethau y mae angen i archwilwyr ac arolygwyr roi sylw cynhwysfawr iddynt er mwyn gallu gwneud

cymariaethau. Gall yr Archwilydd Cyffredinol bennu elfennau ychwanegol o waith i'w gwneud gan archwilwyr penodedig sy'n ategu eu hymagwedd leol yn seiliedig ar risgiau tuag at gynllunio'r archwiliad.

## Gwaith gwerth am arian yn ymwneud â'r Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig

80. Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi rhaglen waith flynyddol gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol, dylai archwilwyr, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, fonitro datblygiadau ar draws y cyrff a'r sectorau y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i rymuso'n statudol i gynnal ymchwiliadau iddynt. Wrth bennu pynciau gwaith gwerth am arian, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, ac archwilwyr ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn ystyried y risg i werth am arian (o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd), gan ystyried nifer o faterion, gan gynnwys:

- y posibilrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol ychwanegu gwerth o'r rhaglen waith gwerth am arian drwy effaith ariannol neu drwy wella gwasanaethau cyhoeddus;
- yr angen i roi sylw systematig i'r maes archwilio dros gyfnod o amser;
- meysydd o ddiddordeb arbennig i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad;
- y posibilrwydd o wneud gwaith cydweithredol gyda chyrff eraill a pha mor ddymunol yw hynny.

81. Bob blwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â chyrff perthnasol a archwilir ac uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a, lle y bo'n briodol, Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad, i lunio rhaglen ddrafft gwaith gwerth am arian i ddechrau'r flwyddyn ganlynol.

82. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried barn Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad wrth lunio'r rhaglen waith gwerth am arian, er mai'r Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol, yn unol ag egwyddor annibyniaeth archwiliwr. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno'r rhaglen arfaethedig i'r Pwyllgor Archwilio ei hystyried. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried barn y Pwyllgor, cyn llunio'r rhaglen derfynol i ddechrau'r flwyddyn ganlynol. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu'r Pwyllgor, a rhanddeiliaid eraill, o'r rhaglen derfynol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cadw'r hawl i ddiwygio'r rhaglen yng ngoleuni amgylchiadau sy'n newid.

## Cyflwyno canlyniadau archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol o berfformiad y Cynulliad a'i gyrff cysylltiedig i'r Cynulliad

83. Gellir cyhoeddi adroddiadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol ar y Cynulliad a chyrff cysylltiedig (gan gynnwys y GIG) a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad. Gall Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad ystyried unrhyw adroddiadau a osodir yn y ffordd honno drwy gymryd tystiolaeth gan Swyddogion Cyfrifyddu neu Swyddogion Atebol perthnasol y cyrff a gaiff eu harchwilio a chyhoeddi ei adroddiadau ei hun ar ôl hynny. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu, lle y bo'n berthnasol, Pwyllgor T'r Cynulliad, o dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio yn gyhoeddus o fewn nifer benodol o ddiwrnodau gwaith.

# 5. Cyfrifoldebau eraill yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig

Mae'r adran hon o'r Cod yn nodi sut y dylid cyflawni rhai cyfrifoldebau eraill archwilwyr, er enghraifft mewn perthynas â dyletswyddau a phwerau penodol archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol.

## Egwyddorion mewn perthynas ag arfer pwerau a dyletswyddau penodol archwilwyr penodedig llywodraeth leol

84. Yn ogystal â swyddogaethau cyffredinol archwilwyr penodedig a nodir mewn adrannau eraill y Cod hwn, mae gan archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol bwerau a dyletswyddau penodol o dan y Ddeddf. Wrth arfer unrhyw rai o'r pwerau a'r dyletswyddau penodol hyn, gan gynnwys pan fyddant yn cynnal archwiliadau o gyrff llywodraeth leol bach o dan Atodlen 1, dylai archwilwyr deilwra eu hymagwedd i amgylchiadau penodol y materion a gaiff eu hystyried.

85. Lle y gwneir unrhyw sylwadau neu lle y darperir unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad, neu pan fydd materion sy'n berthnasol i'r archwiliad fel arall yn dod i'w sylw, dylai archwilwyr penodedig ystyried pa un a oes angen ymchwilio i'r mater a chymryd camau o dan eu pwerau penodol neu pa un a ellir ei ystyried yn fwy effeithiol o fewn rhaglenni gwaith a threfniadau cyflwyno adroddiadau archwilio wedi'u cynllunio o dan eu pwerau archwilio cyffredinol.

86. Wrth ystyried a ddylent arfer unrhyw rai o'u pwerau penodol o dan y Ddeddf, dylai archwilwyr penodedig gymhwyso ymagwedd gytbwys a chymesur wrth bennu'r amser i'w dreulio a'r adnoddau i'w gwario yn ymdrin â materion sy'n dod i'w sylw. Dylent ystyried:
   - arwyddocâd y pwnc;
   - pa un a oes diddordeb cyhoeddus ehangach yn y materion a godir;
   - y gost o ymdrin â'r mater gan gofio mai trethdalwyr sy'n ei thalu'n uniongyrchol; a
   - yn achos gwrthwynebiadau, hawliau'r rhai sy'n destun y gwrthwynebiad a'r gwrthwynebydd.

87. Dylai archwilwyr penodedig wrthod gwrthwynebiadau nad ydynt yn datgelu unrhyw reswm rhesymol dros gymryd camau gweithredu, sy'n ddisylwedd neu'n flinderus, neu sydd fel arall yn camddefnyddio'r broses archwilio.

## Gwaith ymchwiliol arall gan Swyddfa Archwilio Cymru

88. Gan ddefnyddio pwerau mynediad perthnasol, gall Swyddfa Archwilio Cymru, yn ôl disgresiwn yr Archwilydd Cyffredinol, gynnal gwaith ymchwiliol arall - y tu allan i archwilio cyfrifon ac archwiliadau gwerth am arian llawn. Er enghraifft, nod Swyddfa Archwilio Cymru yw rhoi ymatebion llawn i ohebiaeth a geir, lle y bo'n briodol ac yn ymarferol. Yn aml, oherwydd natur y gwaith hwn, nid yw wedi'i gynllunio ond gall ofyn am adnoddau sylweddol. Lle y mae canlyniadau archwiliadau o'r fath nas cynllunnir yn cyfiawnhau hynny, gall Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi adroddiad ar y canlyniad.

# Atodlen 1: Archwiliadau o gyrff bach

## Llywodraethu ac atebolrwydd

A1. Cyfrifoldeb cyrff bach (fel y'u diffinnir gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag Adran 3 y Cod) yw rhoi trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff eu materion ariannol eu cynnal yn briodol, ac er mwyn monitro digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny yn ymarferol. Mae'n ofynnol i gyrff bach baratoi eu cyfrifon yn unol â'u cyfrifoldebau statudol, a chynnal system ddigonol o archwilio eu cofnodion cyfrifyddu a'u systemau rheoli o'r tu mewn.

A2. Mae cyrff bach yn cyflawni eu cyfrifoldebau drwy baratoi a chyhoeddi'r cyfrifon a baratoir ar gyfer y flwyddyn ariannol, a'u rhoi i'r archwiliwr, ynghyd â'r cyfryw wybodaeth ac esboniadau ychwanegol sydd eu hangen i roi digon o dystiolaeth eu bod wedi cynnal systemau rheolaeth fewnol ac archwiliad mewnol digonol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Yr ymagwedd archwilio

A3. Dylai archwilwyr cyrff bach gynnal archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a'r wybodaeth a'r esboniadau ychwanegol a ddarperir gan y corff.

A4. Dylai archwilwyr gyflawni eu cyfrifoldeb drwy:

- adolygu cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran paratoi'r cyfrifon blynyddol;
- cynnal adolygiad dadansoddol lefel uchel o wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall a roddir i'r archwiliwr;
- adolygu'r cyfryw wybodaeth ac esboniadau ychwanegol fel y bo angen i roi digon o dystiolaeth bod y corff wedi cynnal system rheolaeth fewnol ac archwiliad mewnol ddigonol yn ystod y flwyddyn ariannol.

A5. Ar sail adolygiad yr archwiliwr, lle y bydd angen tystiolaeth bellach ar yr archwiliwr mewn perthynas ag unrhyw fater perthnasol, dylid cynnal profion pellach i ymdrin â phryderon yr archwiliwr.

A6. an fydd yr archwiliwr wedi cwblhau archwiliad o'r cyfrifon blynyddol a'r wybodaeth ac esboniadau ychwanegol a roddir, mae'r archwiliwr yn rhoi barn ar y cyfrifon ac yn ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Mae archwilwyr yn rhoi sicrwydd ar ffurf barn o ran pa un a yw'r cyfrifon a'r wybodaeth arall a ddarperir, ar sail eu hadolygiad, yn bodloni'r gofynion a bennir ac nad oes unrhyw faterion wedi dod i'w sylw sy'n peri pryder nad yw gofynion deddfwriaethol a rheoliadol perthnasol wedi'u bodloni.

# Atodiad 1: Rhestr termau

## Aelodau
Aelodau etholedig neu benodedig cyrff a archwilir sy'n gyfrifol am gyfeiriad a rheolaeth gyffredinol y corff. (Gweler hefyd 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethau' a'r 'corff a archwilir'.)

Mae hefyd yn cyfeirio at aelodau etholedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("Aelodau'r Cynulliad".)

## Archwiliad
Archwiliad o gyfrifon corff a archwilir sy'n cynnwys archwilio'r datganiadau ariannol a gwaith arall i fodloni cyfrifoldebau statudol eraill archwilwyr o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae hefyd yn cwmpasu gwaith "gwerth am arian" a wneir ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Archwiliwr (Archwilwyr)
Yr Archwilydd Cyffredinol, staff archwilio Swyddfa Archwilio Cymru neu'r cyflenwr archwilio wrth gyflawni swyddogaethau archwilio. Defnyddir y term 'archwiliwr penodedig' yn y Cod hefyd – gweler uchod.

## Archwiliwr Penodedig
Archwiliwr, a all fod yn aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu gwmni sy'n darparu gwasanaethau archwilio, a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel archwiliwr corff llywodraeth leol. Mae'n ofynnol i archwilwyr penodedig cyrff llywodraeth leol gydymffurfio â rhannau perthnasol y Cod hwn, sef y Cod Ymarfer Archwilio statudol o dan y Ddeddf.

## Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol)
Deiliad y swydd a benodir o dan Adran 90 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwiliwr allanol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyrff cyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal gwaith gwerth am arian ac astudiaethau perfformiad o wasanaethau llywodraeth leol ac arolygiadau o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Yr Archwilydd Cyffredinol yw pennaeth a Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

## Arolygiaethau
Mae'r disgrifiad cyffredinol hwn yn cwmpasu'r sefydliadau eraill hynny sydd â chyfrifoldebau i gynnal arolygiadau, ac asiantaethau adolygu eraill sydd â chyfrifoldebau rheoliadol mewn perthynas â chyrff cyhoeddus.

## Astudiaethau cenedlaethol o wasanaethau llywodraeth leol
Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i gynnal astudiaethau 'gwerth am arian' ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Cyfeirir at waith a wneir o dan y pwerau hyn fel astudiaethau cenedlaethol er y gall astudiaethau unigol gwmpasu gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru gyfan neu gyrff llywodraeth leol penodol yng Nghymru.

## Bwrdd Arferion Archwilio
Mae'r corff yn gyfrifol yn y DU am gyhoeddi safonau archwilio a chanllawiau eraill i archwilwyr. Ei amcanion yw sefydlu safonau uchel o ran archwilio sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwybodaeth ariannol sy'n datblygu a meithrin hyder y cyhoedd yn y broses archwilio.

## Cod (y Cod)
Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Corff a Archwilir a/neu a Arolygir
Corff a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi'r archwiliwr allanol iddo, sy'n cynnwys aelodau'r corff a'i reolwyr (uwch swyddogion y corff). Mae aelodau'r corff a archwilir yn gyfrifol am faterion llywodraethu. (Gweler hefyd 'aelodau' ac 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'.)

## Cynllun gwella / Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella

Y cynllun gwella yw'r cynllun y mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol penodol ei gyhoeddi'n flynyddol o dan adran 6 Deddf Llywodraeth Leol 1999, a ategir gan ganllawiau a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae'r Cynulliad wedi sefydlu Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a thrwy'r rhaglen hon, mae'n ceisio rhoi gofynion ar waith sy'n ymwneud â'r ddyletswydd hon, ac mae is-ddeddfwriaeth wedi darparu ar gyfer cynlluniau gwella i fodloni gofynion statudol yng Nghymru.

## Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

## Cyrff llywodraeth leol

Cyrff y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am benodi archwilwyr ar eu cyfer, fel y nodir yn Adrannau 12 i 14 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ymhlith y rhain mae awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, pwyllgorau awdurdodau lleol (gan gynnwys pwyllgorau ar y cyd), awdurdodau'r heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

## Datganiadau ariannol

Y datganiadau ariannol blynyddol ar y ffurf benodedig, neu lyfrau cyfrif y cyrff hynny a archwilir nad yw'n ofynnol iddynt gynhyrchu datganiadau.

## Datganiad Llywodraethu

Datganiad a gynhwysir o fewn datganiadau ariannol corff a archwilir sy'n nodi canlyniadau adolygiad o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol sefydliad gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r sefydliad hwnnw. (Gweler hefyd "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu".)

## Datganiad o Gyfrifoldebau

Datganiad a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifoldebau cyffredinol sy'n berthnasol i archwiliadau mewn sectorau penodol. Ei ddiben yw egluro – yng nghyd-destun y gwaith arferol o gynnal archwiliad – lle y mae cyfrifoldebau gwahanol archwilwyr ac arolygwyr, a'r corff a arolygir ac a archwilir, yn dechrau ac yn gorffen, a'r terfynau o ran yr hyn y gellir disgwyl i'r archwiliwr a'r arolygydd ei wneud yn rhesymol.

## Deddf (y Ddeddf)

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## Llythyr Archwilio Blynyddol / Llythyr Archwilio ac Arolygu Blynyddol

Adroddiad a roddir gan yr archwiliwr penodedig i gorff llywodraeth leol sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yn y cyfnod, barn neu gasgliadau'r archwilwyr (lle y bo'n briodol) a materion o bwys neu faterion arwyddocaol sy'n deillio o waith yr archwilwyr. I gyrff lle y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiadau, gellir cyhoeddi'r llythyr archwilio blynyddol gyda chrynodeb o'r gwaith arolygu a gyflawnwyd yn y cyfnod.

## Llythyr Dealltwriaeth

Y llythyr, sy'n cyfateb i'r 'llythyr ymrwymiad', a anfonir i gyrff a archwilir lle mai'r Archwilydd Cyffredinol yw'r archwiliwr statudol. Rhoddir y llythyr hwn, ac mae'n parhau i fod mewn grym, hyd nes y bydd Datganiad perthnasol o Gyfrifoldebau yn ei ddisodli. (Gweler hefyd "datganiad o gyfrifoldebau").

## Llythyr Ymrwymiad

Llythyr a anfonir gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyrff a archwilir lle y cynhelir archwiliad drwy gytundeb. Mae'r llythyr yn nodi priod rolau a chyfrifoldebau'r archwiliwr a'r corff a archwilir.

## Perthnasedd (ac arwyddocâd)

Mae'r Bwrdd Arferion Archwilio yn diffinio'r cysyniad hwn fel 'mynegiant o arwyddocâd neu bwysigrwydd cymharol mater penodol yng nghyd-destun y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae mater yn berthnasol os bydd ei hepgor yn dylanwadu'n rhesymol ar benderfyniadau'r sawl y cyfeirir adroddiad yr archwiliwr ato; yn yr un modd, mae camddatganiad yn berthnasol os byddai'n cael dylanwad tebyg. Gellir ystyried perthnasedd hefyd yng nghyd-destun unrhyw ddatganiad sylfaenol unigol o fewn y datganiadau ariannol neu eitemau unigol a gynhwysir ynddynt. Ni ellir rhoi diffiniad mathemategol cyffredinol o berthnasedd, am fod iddo agweddau ansoddol a meintiol.'

Dim ond i'r gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol y mae'r term 'perthnasedd' yn gymwys. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyfrifoldebau a dyletswyddau o dan statud, yn ogystal â'u cyfrifoldeb i archwilio'r datganiadau ariannol, nad ydynt o reidrwydd yn effeithio ar eu barn ar y datganiadau ariannol. Mae'r cysyniad o 'arwyddocâd' yn gymwys i'r cyfrifoldebau ehangach hyn, gan gynnwys swyddogaethau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol ac mae archwilwyr ac arolygwyr yn mabwysiadu lefel o arwyddocâd a all fod yn wahanol i'r perthnasedd a gymhwysir i'r archwiliad o'r datganiadau ariannol. Mae gan arwyddocâd agweddau ansoddol a meintiol.

## Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad

Un o bwyllgorau statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cymryd tystiolaeth oddi wrth Swyddogion Cyfrifyddu a swyddogion eraill ar sail y cyfrifon a'r adroddiadau a osodir gerbron y Cynulliad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Ar ôl cymryd tystiolaeth, mae'n cynhyrchu ei adroddiadau ei hun y mae'n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb iddynt. Ni osodir adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol nad ydynt ond yn cwmpasu gweithgareddau llywodraeth leol gerbron y Cynulliad ac felly nid ydynt o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried ac, fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n atebol i'r Pwyllgor am y defnydd o'i hadnoddau.

## Rheolaeth fewnol

Y system gyfan o reolaethau ariannol a rheolaethau eraill, a sefydlwyd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol o weithrediadau effeithiol ac effeithlon, rheolaeth ariannol fewnol a chydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau.

## Rheoleidd-dra (gwariant ac incwm)

Yn amodol ar y cysyniad o berthnasedd, pa un a yw gwariant ac incwm cyrff perthnasol, gan gynnwys cyrff lleol y GIG, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a pha un a ydynt yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Safonau Archwilio

Datganiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio, sy'n cynnwys egwyddorion sylfaenol a gweithdrefnau hanfodol sy'n rheoli gwaith archwilio.

## Safonau Moesegol

Datganiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio sy'n cynnwys egwyddorion sylfaenol sy'n gymwys i'r gwaith o gynnal archwiliadau y mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â hwy.

## Stiwardiaeth

Mae'r term stiwardiaeth yn cyfeirio at yr egwyddor bod y rhai sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff busnes cyhoeddus ei gynnal yn briodol ac am wario arian cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir busnes cyhoeddus yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, ac y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, ac y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Swyddfa Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) ynghyd â staff yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddfa Archwilio Cymru.

## Swyddogaethau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol

Swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu staff Swyddfa Archwilio Cymru, a gyflawnir o dan bwerau arolygu'r Archwilydd Cyffredinol i asesu pa mor dda y mae cyrff llywodraeth leol penodol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd 'gwerth gorau' o sicrhau gwelliannau parhaus yn eu swyddogaethau gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## Swyddogion Cyfrifyddu a Swyddogion Atebol

Yr uwch swyddogion yn y Cynulliad, ei gyrff cyhoeddus cysylltiedig a chyrff GIG Cymru sy'n bersonol gyfrifol am yr arian sydd o dan eu gofal. Ymhlith y cyfrifoldebau hyn mae'r angen i sicrhau rheolaeth, rheoleidd-dra a phriodoldeb ariannol priodol a gwerth am arian yn y defnydd o adnoddau.

Mae'r Trysorlys wedi penodi'r Ysgrifennydd Parhaol yn Brif Swyddog Cyfrifyddu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Trysorlys hefyd wedi penodi nifer o uwch swyddogion y Cynulliad yn Swyddogion Cyfrifyddu ychwanegol gan gynnwys, er enghraifft, penodi Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru. Yn ei dro, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu wedi penodi prif weithredwyr cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn Swyddogion Cyfrifyddu eu priod sefydliadau, ac mae Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi pennu prif weithredwyr byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn Swyddogion Atebol.

Gellir galw ar Swyddogion Cyfrifyddu a Swyddogion Atebol i roi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus T'r Cyffredin.

## Y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Diffinnir y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn y safonau archwilio fel 'y bobl hynny sy'n gyfrifol am oruchwylio a rheoli endid a'i gyfeiriad'.

Ar gyfer y Cynulliad, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw'r Ysgrifennydd Parhaol, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a elwir felly er mwyn osgoi drysu rhyngddo ef a Phwyllgor Archwilio statudol y Cynulliad). O fewn y fframwaith hwn, mae trefniadau llywodraethu ychwanegol ar gyfer yr asiantaethau gweithredol a Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad a gaiff eu harwain gan bobl sydd wedi'u pennu'n Swyddogion Cyfrifyddu ychwanegol.

Ar gyfer cyrff eraill sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw'r byrddau penodedig neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt, y prif weithredwyr neu benaethiaid swyddogol parhaol yn rhinwedd eu swydd fel Swyddogion Cyfrifyddu a'u pwyllgorau archwilio.

Yng nghyrff lleol y GIG, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, at ddiben cydymffurfio â'r safonau archwilio, yw bwrdd y cyfarwyddwyr ac, mewn perthynas â rhai cyfrifoldebau, y pwyllgor archwilio ar ran y bwrdd, a'r prif weithredwyr fel Swyddogion Atebol.

Mewn cyrff llywodraeth leol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yw:

- ar gyfer awdurdodau lleol – y cyngor llawn, y pwyllgor archwilio (lle y'i sefydlwyd) neu unrhyw bwyllgor arall y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- ar gyfer yr heddlu, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol – yr awdurdod llawn, y pwyllgor archwilio (lle y'i sefydlwyd) neu unrhyw bwyllgor arall y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol;
- ar gyfer byrddau prawf lleol – y bwrdd neu'r pwyllgor archwilio;
- ar gyfer cyrff llywodraeth leol eraill – yr awdurdod llawn/bwrdd/cyngor, y pwyllgor archwilio (lle y'i sefydlwyd) neu unrhyw bwyllgor arall y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo dros gymeradwyo'r datganiadau ariannol.